WHITE RIBBON .ORG.UK

Mae'n bryd dechrau chwarae fel tîm. Gall pob dyn ymrwymo i gydraddoldeb a diogelu merched a genethod – dyna #YNod

Yr unig ffordd o gyflawni #YNod yw drwy gyrraedd gymaint o bobl â phosib. Dyma sut y gallwch chi, eich gweithle, cydweithwyr, ffrindiau, teulu a chymdogion i gyd chwarae rôl hanfodol yn codi arian ac ymwybyddiaeth fel bod White Ribbon UK yn gallu parhau i newid meddyliau a diwylliant. Mae bob punt a cheiniog yn helpu tuag at ymwybyddiaeth, ymgyrchu ac addysgu. Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth parhaus i atal trais yn erbyn merched a genethod.

Ydych chi'n barod i godi ymwybyddiaeth ac arian hanfodol i helpu Rhuban Gwyn i gyrraedd mwy fyth o bobl? Felly amdani!

#TheGoal #WhiteRibbonDay #WRD22

Mae'r pecyn codi arian hwn yn rhoi syniadau ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau, a chymorth ymarferol ar sut i gael yr arian a godwch i ni. Gyda'r Diwrnod Rhuban Gwyn ar 25 Tachwedd, mae'n gyfle gwych i godi arian drwy fod gymaint yn digwydd i ddangos pwy ydym a'r gwahaniaeth yr ydym eisiau ei wneud.

Drwy godi ymwybyddiaeth a chael y sgyrsiau pwysig hyn, gofynnwn i chi annog pawb i wisgo Rhuban Gwyn (ar gael ar ein gwefan) i wneud yr Addewid Rhuban Gwyn i byth ddefnyddio, esgusodi nac aros yn dawel am drais dynion yn erbyn merched. I wneud hyn yn haws i chi, rydym wedi cynnwys cod QR ar y poster yn y pecyn hwn sy'n mynd â chi'n syth i ble y gallwch wneud yr Addewid Rhuban Gwyn.

Gobeithio y bydd eich profiad o godi arian i White Ribbon UK yn brofiad gwerth chweil ac y cewch amryw o sgyrsiau ysgogol a phositif a chanlyniadau da o ganlyniad. Os oes angen mwy o fanylion neu gymorth arnoch, cofiwch gysylltu â Leyla Buran, ein Rheolwr Ymgyrchoedd a Pholisi Leyla.Buran@whiteribbon.org.uk

Mae yna hefyd fwy o wybodaeth ar ein gwefan www.whiteribbon.org.uk/donate-fundraise/#fundraise

Rydym wrth ein bodd yn gweld lluniau o weithgareddau a digwyddiadau, cofiwch ein tagio ar y cyfryngau cymdeithasol wrth eu rhannu.

WHITE RIBBON .ORG.UK

Os ydych eisiau codi arian mewn sefydliad neu gwmni...

- Mae lotris pêl-droed yn weithgaredd da gyda Chwpan Byd y Dynion. Rhestrwch bob un o'r 32 o dimau gwlad a chael 32 o bobl neu dimau (gan ddibynnu ar faint eich sefydliad) i gyfrannu a dewis gwlad. Dilynwch y gemau i weld pwy sy'n colli a gadael y twrnamaint, a phwy sy'n ennill. Mae'r arian yna'n cael ei rannu rhwng yr enillydd a White Ribbon UK.

- Gallech drefnu gweithgaredd arbennig – trefnu i bawb goginio neu bobi gyda thema pêl-droed mewn golwg. Gallech fod yn greadigol gyda pheli cig a chacennau addurnedig pêl-droed. Gallai pawb gyfrannu i fwynhau danteithion blasus. Cyfrannu i White Ribbon UK a chael cinio difyr ar yr un pryd!

- Gallech wisgo cit pêl-droed i'r gwaith am ddiwrnod – creu tîm neu dimau, gwneud eich crysau a meddwl am enwau, neu wisgo crysau'r clybiau a gefnogwch. A chodi arian ar gyfer White Ribbon UK, heb anghofio tynnu lluniau!

- Trefnu gêm bêl-droed gyda'r timau'n uno am y cyfle i gael eu coroni'n enillwyr. Gallech addasu'r gêm yn bêl-droed cerdded i osgoi anafiadau a chynnwys mwy o bobl, cael gêm o Subbuteo, neu ddod â gemau fideo i'r gwaith a chynnal twrnamaint. Cofiwch fod angen tlws i'r enillwyr a gwobrau (bach).

WHITE RIBBON .ORG.UK

Os ydych eisiau codi arian fel unigolyn...

- Trefnwch i wneud ciciau o'r smotyn noddedig – cael pobl i gyfrannu ar sail faint o goliau y gallwch ei sgorio mewn awr, neu ddwy!

- Os oes gennych blant, nithod, neiaint, cefndryd neu gyfnitherod mewn timau pêl-droed, beth am gael stondin diodydd poeth mewn sesiwn ymarfer ar benwythnos, neu gêm i'r oedolion wrth aros a gwylio?

- Gofynnwch i bobl eich noddi i redeg neu gerdded ar draws cae pêl-droed – neu beth am 7 milltir / 11km mewn 90 munud a gweld a allwch gadw i fyny â'r pellter y mae chwaraewr pêl-droed proffesiynol yn ei redeg mewn un gêm?

Gallech ystyried ffyrdd rhithiol o godi arian....

- Trefnwch ddigwyddiad chwaraeon rhithiol.

- Beth am gynnal bore coffi rhithiol i ddal i fyny â ffrindiau, teulu neu gydweithwyr. Gallech ddefnyddio ein gweithdy neu ganllaw Diwrnod Rhuban Gwyn i hwyluso trafodaeth bositif am gydraddoldeb rhwng y rhywiau.

- Beth am gwis rhithiol dros sgwrs fideo neu ar y cyfryngau cymdeithasol – i weld pwy yw'r mwyaf cystadleuol o'ch ffrindiau a theulu. Gallech wneud y cwis pêl-droed i gyd-fynd â thema Diwrnod Rhuban Gwyn 2022. Cofiwch gynnwys cwestiynau i brofi gwybodaeth y cyfranogwyr am bêl-droed merched hefyd.

- Beth bynnag yw'r gweithgaredd, os bydd eraill yn ei weld, archebwch grys hyfforddi Rhuban Gwyn a'r Addewid Rhuban Gwyn ar y cefn i ledaenu'r neges.

Dyma rai syniadau ar sut i ddechrau:

1.Pa glwb pêl-droed merched, yn ystadegol, yw'r mwyaf llwyddiannus yn Lloegr? Arsenal
2.Yn ôl tablau safle FIFA, pa dîm merched rhyngwladol oedd y gorau yn y byd yn 2022 gyda 2109.9 o bwyntiau? Unol Daleithiau America
3.Pa dîm enillodd y Cwpan Byd Merched cyntaf erioed yn 1991? UDA
4.Pa dîm enillodd Uwch-Gynghrair (Super-League) y Merched yn 2022? Chelsea
5.Pa un o'r caeau pêl-droed canlynol wnaeth DDIM cynnal gêm Euro Merched UEFA 2022 yn Lloegr? St James' Park
6.Faint o dimau sydd yn yr Uwch-Gynghrair (Super-League) Merched? 12
7.Pa chwaraewr i Loegr a dorrodd record sgorio goliau Kelly Smith drwy sgorio tair gôl yn erbyn Latfia ym mis Tachwedd 2021? Ellen White

Dywedwch eich stori

Mae'n bwysig bod pwrpas a nodau Rhuban Gwyn yn cael eu gweld a'u deall gan bawb. Anogwn chi i ddweud eich stori i godi ymwybyddiaeth yn eich cymuned leol. Dyma rai ffyrdd y gallwch wneud hyn:

- Rhannwch eich stori â'ch cyfrwng newyddion lleol, yn bapur newydd, radio neu'n deledu. Anfonwch e-bost atynt gyda'ch stori gan ychwanegu llun yn egluro beth yr ydych yn ei wneud a pham neu drwy gysylltu â nhw ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol.
-
- Rhannwch luniau a fideos ar eich cyfryngau cymdeithasol; gallech annog gwylwyr neu gyfranogwyr i rannu hefyd. Gallech hyd yn oed bostio'r ddolen i'ch tudalen noddi, os ydych yn hel arian ar-lein, i'ch cyfryngau cymdeithasol ac annog eraill i rannu'r ddolen.

Eglurwch pam eich bod yn cefnogi White Ribbon UK. Cofiwch ein tagio a defnyddio hashnodau WRD22 - #YNod #DiwrnodRhubanGwyn2022 #RhubanGwynDU

Amdan Ddiwrnod Rhuban Gwyn 2022 a White Ribbon UK

I rannu gwybodaeth am White Ribbon UK a derbyn canllawiau ar sut gyfathrebu ein pwrpas a'n cenhadaeth, darllenwch ymlaen:

Rhuban Gwyn yw'r brif elusen yn y DU sy'n gweithio gyda dynion a bechgyn i roi diwedd ar drais yn erbyn merched a genethod. Ein cenhadaeth yw atal trais yn erbyn merched a genethod drwy fynd i'r afael â gwraidd y broblem. Gwnawn hyn drwy godi ymwybyddiaeth o beth yw trais, a'r cysylltiad rhwng normau gwrywaidd gormesol, anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, a thrais yn erbyn merched. Drwy ein gwaith, ceisiwn newid agweddau cymdeithas a'r systemau ac ymddygiad o gwmpas bod yn ddyn sy'n parhau anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Anghydraddoldeb rhwng y rhywiau sydd wrth wraidd trais yn erbyn merched. Mae gwaith White Ribbon UK yn ataliol a cheisiwn roi diwedd ar drais cyn iddo ddechrau.

I wybod sut orau i gyfathrebu beth yw #YNod, mae croeso i chi ddefnyddio negeseuon ein hymgyrch swyddogol:

Unwch ar gyfer Diwrnod Rhuban Gwyn 2022
Mae'n bryd dechrau chwarae fel tîm. Gall pob dyn ymrwymo i gydraddoldeb a diogelu merched a genethod – dyna #YNod
P'un ai'n gefnogwr pêl-droed neu beidio, gwnewch yr Addewid Rhuban Gwyn heddiw.

Am fwy o wybodaeth , ewch i'n gwefan www.whiteribbon.org.uk

Cefnogwch godi arian

Codi arian ar-lein

Y ffordd hawsaf o ofyn i ffrindiau, teulu neu gydweithwyr eich noddi neu gyfrannu at ddigwyddiad yw drwy sefydlu tudalen noddi ar-lein.

Dyma sut:

- Ewch i'n gwefan codi arian gymeradwy JustGiving. Mae dolen uniongyrchol ar ein gwefan https://www.whiteribbon.org.uk/donate-fundraise/#fundraise. Cliciwch ar y botwm piws "Start fundraising with JustGiving"
- Dewiswch White Ribbon UK fel eich elusen.
- Dilynwch y cyfarwyddiadau i greu eich tudalen.
- Penderfynwch ar darged, teitl y dudalen a chysylltu aelodau eich tîm, os oes rhai.
- Eglurwch wrth bobl pam eich bod yn codi arian i White Ribbon UK a sut y gall eu cyfraniadau helpu i atal trais yn erbyn merched.
- Ar ôl sefydlu eich tudalen, e-bostiwch y ddolen at eich ffrindiau, teulu a chydweithwyr, ei chysylltu i'ch tudalen Facebook a Thrydar amdani. Mae'n syniad da gofyn i'r rhai sy'n debygol o'ch noddi am gyfraniad mwy i ddechrau, i annog noddwyr eraill i fod yr un mor hael.
- Mae noddi ar-lein yn arbed amser ac nid oes raid casglu'r cyfraniadau. Mae hefyd yn rhatach fel bod mwy o arian yn mynd yn syth i gefnogi ein gwaith.

Cyfraniadau all-lein

Cofiwch fancio unrhyw gyfraniadau ariannol gan naill ai anfon siec bersonol am y swm atom neu dalu'r arian i mewn drwy'r botwm 'cyfrannu' ar ein gwefan. Os oes gennych dudalen codi arian ar-lein, gallwch hefyd dalu mewn i'ch tudalen codi arian Rhuban Gwyn eich hun. Mae'n arfer da cael rhywun i fod yn dyst i faint o arian a gasglwyd gennych a'ch bod yn dangos iddynt mai dyma'r swm yr ydych wedi'i dalu mewn i'r banc neu ar-lein.

Trosglwyddiad banc – e-bostiwch Jayne yn Jayne.Blacker@whiteribbon.org.uk am fanylion banc Rhuban Gwyn.

Siec - gallwch anfon siec yn daladwy i 'WHITE RIBBON CAMPAIGN LTD' at: 155. White Ribbon UK, Unit 28, The Town Hall, St. George's Street, Hebden Bridge, HX7 7BY

Cofiwch gynnwys nodyn gan roi eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn a / neu gyfeiriad e-bost fel ein bod yn gwybod gan bwy y daeth yr arian, a diolch i chi.